



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Bobl Bach y Bannau
Ysgol y Bannau
Penlan
Aberhonddu
Powys
LD3 9SR**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

gan

**Nicholas Jones
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2015

Cyd-destun

Mae Bobl Bach y Bannau yn lleoliad sy'n cael ei redeg gan Ysgol y Bannau yn Aberhonddu, Powys. Mae'n cyfarfod mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol ar dir yr ysgol. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos. Mae gan y lleoliad tri aelod o staff, sy'n mynychu ar wahanol ddyddiau yn ystod yr wythnos.

Mae cofrestriad y lleoliad yn ei alluogi i dderbyn hyd at 24 o blant. Mae'n derbyn plant yn y tymor ar ôl eu trydydd penblwydd. Maent yn aros yn y lleoliad hyd at y tymor cyn eu penblwydd yn bedair oed, pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Ar adeg yr arolygiad, roedd pump o blant yn mynychu, pob un ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae pob un plentyn o darddiad gwyn Prydeinig a bron pob un yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym Medi 2011. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2014. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf yn Ionawr 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda
- Mae'r addysgu'n effeithiol
- Mae gofal y plant yn ddiwyd
- Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol
- Mae'r adnoddau o ansawdd da yn cael eu defnyddio'n effeithiol, dan do ac yn yr awyr agored
- Mae'r perthynas rhwng oedolion a phlant yn gadarnhaol
- Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r cyfeiriad strategol a ddarparwyd gan yr arweinydd a grŵp rheoli'r ysgol yn effeithiol
- Mae'r systemau hunan arfarnu yn arferion rheolaidd sy'n cefnogi'r lleoliad
- Mae'r holl staff ag agwedd gadarnhaol tuag at wella eu haddysgu drwy hyfforddiant da
- Mae cysylltiadau cefnogi da yr awdurdod lleol yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn synhwyrol
- Mae'r arweinydd yn weithgar iawn yng ngwaith dyddiol y lleoliad
- Mae'r berthynas gyda'r ysgol yn gadarnhaol iawn

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson
- A2 Gwella'r ardaloedd garddio yn yr awyr agored
- A3 Sicrhau bod targedau'r cynllun gwella yn deillio yn uniongyrchol o'r hunan arfarniad

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

**Dim yn
berthnasol**

Safonau: Dim yn berthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Lles: Dim yn berthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda. Mae'n bodloni athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r cynllunio dyddiol yn drylwyr ac mae'n targedu plant unigol i sicrhau eu bod nhw'n gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant. Mae'n cynnwys gweithgareddau diddorol ar gyfer datblygu medrau'r plant ar draws y cwricwlwm, yn enwedig medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol.

Mae'r arweinydd yn paratoi'r cynllunio wythnosol yn gydwybodol. Mae hi'n cydlynu hyn yn effeithlon gydag aelodau staff eraill ac mae barnau a syniadau pob aelod o staff yn cael eu hystyried a'u defnyddio'n synhwyrol. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ganiatáu i staff ddilyn diddordebau'r plant dan do ac yn yr ardal ddysgu awyr agored.

Mae staff yn caniatáu i blant ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain yn effeithiol. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg iawn dan do ac yn yr ardal allanol. Mae hyn yn amlwg iawn yn yr ardaloedd chwarae rôl dychmygus, lle mae'r plant yn chwarae'n greadigol mewn pebyll a golchi mwd oddi ar geir gyda phibellau dŵr a sbyngau. Darperir cyfleoedd da hefyd i blant ddatblygu eu medrau corfforol a meddwl. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfleoedd cadarnhaol i arbrofi mewn gweithgareddau cerddorol gyda sobsenni ac offer eraill ac i yrru beiciau o amgylch yr ardal awyr agored.

Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n dda gyda'r plant yn y Gymraeg. Maent yn annog y plant i ymateb yn y Gymraeg ac maent yn bositif iawn am ddefnydd yr iaith mewn gweithgareddau bob dydd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau i ganol y dref a chysylltiadau gyda busnesau lleol, y gwasanaeth tân a'r heddlu yn datblygu ac ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu plant (TGCh) yn dda. Mae staff yn cyfeirio'r plant yn bwrpasol tuag at y defnydd o adnoddau technolegol fel y cyfrifiadur, camerâu a theganau electronig.

Mae'r traddodiadau a'r dathliadau o ddiwylliant Cymru yn cael eu pwysleisio'n dda trwy ddatlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a thrwy hanes a thraddodiadau'r Bannau Brycheiniog. Mae'r staff yn canu ac adrodd rhigymau Cymraeg yn aml drwy gydol pob sesiwn, sy'n helpu dealltwriaeth y plant o'r iaith. Mae'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill yn dda. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu gwyliau, megis, y Ffiwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr holl staff a'r plant. Mae gan bob staff rôl weithredol wrth ddarparu cwricwlwm ysgogol a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blentyn a rhai sy'n cael eu cyfarwyddo gan oedolion, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r staff yn gwybod pryd i ymyrryd yn synhwyrol mewn chwarae plant. Mae'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar gyfer y plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws. Mae hyn yn sicrhau lefelau da o her ar gyfer plant unigol, sy'n cyfateb i'w galluedd.

Mae'r holl staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda. Maent yn herio'r plant i werthuso eu gwaith yn rheolaidd ym mhob maes dysgu. O ganlyniad, mae'r plant yn frwdfrydig ac yn ymwneud yn llawn yn yr holl weithgareddau, er enghraifft, wrth iddynt baratoi cynhwysion i wneud cawl Cymreig, pan fyddant yn casglu dail a pheintio golygfeydd yr hydref a phan maent yn gwisgo tedi i fynd ar daith wersylla.

Mae gan y staff proses sefydlog o rannu gwybodaeth o arferion asesu. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Felly, nid yw'r asesiadau dyddiol yn cofnodi'n ddigon manwl yr hyn y mae'r plant yn dysgu o ddydd i ddydd. Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn amlygu'n glir gynnydd eu plentyn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Mae'r staff yn meithrin gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson drwy weithgareddau dyddiol. Maent yn gweithio'n ddiwyd i hybu hunan barch a hyder y plant. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrion, cymryd eu tro a thrafod eu teimladau. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol ac mae'r plant yn cael eu hannog yn frwd i gymryd cyfrifoldeb am weini ffrwythau, tost a diodydd. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu

papur, bwyd a phlastig. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Caiff y drysau eu cloi ac fe'u hagogir gan aelodau staff yn unig. O ganlyniad, ni all unrhyw un ddod mewn neu blentyn adael heb gwmni. Mae'r ardal allanol wedi'i hamgáu o fewn ffiniau'r lleoliad ac mae'r giatiau yn cael eu bolltio'n ddiogel pan fydd y plant yn yr awyr agored. Mae gofal da yn cael ei gymryd pan fydd plant yn cael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr hysbys.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr arweinydd yw'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gweithio'n agos gyda phennaeth yr ysgol i sicrhau bod y gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol yn eu lle. Mae'r lleoliad yn defnyddio cefnogaeth allanol gan yr awdurdod lleol yn dda.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiadwyd gan y staff yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol. Mae'r lleoliad yn rhan bwysig o'r ysgol ac yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynnwys gwasanaethau wythnosol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn llwyddiannus yn yr adeilad a thu allan i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r ddarpariaeth o adnoddau mewn tasgau ffocws, gweithgareddau parhaus ac yn y cyfleoedd i gyfoethogi dysgu yn cael eu rhannu'n effeithiol.

Mae'r ardal awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n dda. Mae'n cael ei drefnu'n synhwyrol ac mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r holl adnoddau, gan gynnwys cegin awyr agored sydd dan yr ardal dan do. Maent yn dysgu trwy brofiadau ysgogol. Mae darpariaeth i dyfu planhigion mewn potiau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant i blannu ac i ddysgu sut mae pethau'n tyfu yn ardal allanol y lleoliad.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad gan asiantaethau allanol, megis yr awdurdod lleol yn synhwyrol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd i gefnogi'r lleoliad. Mae'r arweinydd a'r staff yn cynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol ac ymarferol ar gyfer y plant. Maent wedi dilyn cyfarwyddyd yr awdurdod lleol ar ddatblygu cynllunio a threfnu'r meysydd dysgu yn effeithiol.

Mae'r cynllun gwella yn nodi'n gywir yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn i'r lleoliad i wella. Mae targedau'r cynllun strategol yn cael effaith gadarnhaol drwy greu gwelliannau dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r targedau'n cyfatebu'n gyson â'r meysydd gwella a nodwyd yn yr adroddiad hunan arfarnu.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant effeithiol a pherthnasol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd a'r grŵp rheoli, a gydlynir gan yr ysgol, yn arwain yn effeithlon ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth. Mae'r systemau rheoli yn cwrdd â'r gofynion. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn bwrpasol.

Gwella ansawdd: Da

Wrth greu'r hunan arfarniad, mae ystyriaeth synhwyrol o farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn amlwg. Mae anghenion y lleoliad yn cael eu nodi'n fanwl yn y cynllun gwella. Mae'r arweinydd yn trafod yr hunan werthuso'n hyderus. Mae hi'n defnyddio prosesau hunan arfarnu rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn targedu anghenion datblygu'r lleoliad. Yn yr hunan arfarniad, mae'r meysydd a nodwyd ar gyfer datblygu yn cynnwys gwella cysylltiadau rhieni, datblygu darpariaeth barhaus a gwella'r ddarpariaeth TGCh.

Mae staff yn canolbwyntio'n ddiwyd ar greu gwelliannau. Maent yn targedu ardaloedd datblygu yn effeithlon. Yn gyffredinol, mae'r arweinydd yn targedu meysydd datblygu perthnasol yn briodol. Fodd bynnag, mae cysylltiadau anghyson rhwng yr hunan arfarnu a thargedau'r cynllun gwella. Er bod targedau perthnasol a chryno yn y cynllun, nid ydynt yn deillio gyda digon o gywirdeb o hunan arfarniad y lleoliad.

Mae staff yn gwneud defnydd da iawn o gyfleoedd hyfforddiant proffesiynol a phrofiadau dysgu, yn enwedig trwy swyddogion cymorth yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau a chynnydd eu plant. Mae hyn yn eu helpu i gefnogi dysgu eu plant. Mae'r rhieni, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad ac maent yn werthfawrogol iawn o safonau gofal ac ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn. Mae llyfryn llawn gwybodaeth yn darparu rhieni a gofalwyr gyda manylion perthnasol amdano'r lleoliad.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae rhieni'n teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r ysgol yn dda iawn ac mae'r lleoliad yn cael ei gynnwys ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae'r partneriaethau rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol wedi'u sefydlu'n dda. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n gyflym a'n gydwybodol ar gyngor gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cefnogi'r lleoliad o ran symud ymlaen, ac mae'n cyfrannu'n dda at y ddarpariaeth effeithiol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r arweinyddiaeth yn strategol ac yn cynllunio'n dda ar gyfer y dyfodol. Mae'r profiadau dysgu yn diddori ac ysgogi pob plentyn. Mae'r addysgu yn cymell y plant i berfformio ar eu gorau yn yr holl dasgau. Mae gofal y plant yn ddiwyd ac adnoddau yn cael eu rheoli'n dda i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad.

Mae'r arweinydd a grŵp rheoli'r ysgol yn sicrhau bod y lleoliad â digon o staff sydd â chymwysterau a hyfforddiant priodol. Mae'r arweinydd yn defnyddio asiantaethau cefnogi'n bwrpasol fel partneriaid effeithiol, i gefnogi'r plant a'r staff.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i wella cyflawniadau'r plant. Gwneir defnydd synhwyrol o'r holl adnoddau sydd ar gael. Maent yn hylaw i'r plant ac yn cael eu defnyddio'n dda. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardal leol i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol a'r arweinyddiaeth gadarn yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
-------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.